# Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol (BASW) Cymru

# Maniffesto Gwaith Cymdeithasol

## Etholiad y Senedd 2021



BASW Cymru

Y gymdeithas i waith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol

“

*Mae gwaith cymdeithasol yn ymwneud a bywyd, trysori dyngarwch, creu cysylltiadau, rhannu a hybu cyfiawnder. Mae'n ymwneud a chreadigedd, gofal a chariad - bod yna i helpu pobl i oresgyn y rhwystrau a gorthrwm sydd yn eu dal yn ôl. I'r bobl hynny sy'n defnyddio ein gwasanaethau, dylai gweithiwr cymdeithasol fod yn un y gellid ymddiried a chredu ynddo - rhywun all helpu chi i gredu yn eich hun. Weithiau rhaid i ni ddiogelu ffiniau, amddiffyn hawliau, rhoi cefnogaeth a bod yn heriol. Rydym wastad yng nghanol stwff anniben, wrth chwilio am y ffordd ymlaen."*

(R. Allen, Prif Weithredwr BASW)

**Mae maniffesto BASW Cymru yn adeiladu ar yr ymgyrchu allweddol a wnaed gan BASW ers i ni gomisiynu ein hymchwil Professional Working Conditions and Wellbeing gyntaf yn 2017 a 2018 – https://www.basw.co.uk/what-we-do/campaigns/professional-working-conditions – ynghyd a'r ymgynghori a fu gyda'n haelodau.**

Er mwyn i weithwyr cymdeithasol cyflawni eu potensial a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lesiant a ffyniant plant, pobl ieuanc ag oedolion, rydym yn galw ar i'r holl bleidiau gwleidyddol yng Nghymru cydweithio gyda BASW Cymru i ddiogelu ein proffesiwn ac ymrwymo i:

1. **Cynnal adolygiad annibynnol o waith cymdeithasol yng Nghymru**
2. **Cynyddu'r nifer o weithwyr cymdeithasol sy'n dod i mewn i'r proffesiwn ac i gau'r bylchau gwag**
3. **Cynyddu'r nifer o fwrsarïau i fyfyrwyr a'i gosod yn gyfartal a'r rhai a gynigir i fyfyrwyr nyrsio**
4. **Sicrhau bod rôl hanfodol gweithwyr cymdeithasol o fewn iechyd cyhoeddus yn cael ei integreiddio i gynllunio argyfwng ar lefel Llywodraeth ac yn lleol**
5. **Diwygio a buddsoddi mewn, cyllid gofal cymdeithasol**
6. **Gwneud addysg gwrth-gorthrwm, gwrth-hiliaeth a gallu addysg ddiwylliannol yn hanfodol i holl weithwyr cymdeithasol trwy bob cam o'u gyrfaoedd**
7. **Creu swydd o Brif Weithiwr Cymdeithasol dros Gymru**

# O fewn ein 7 'Cais' Allweddol rydym yn gofyn i bob

## Amodau gwaith a llesiant y gweithlu

www.basw.co.uk/what-we-do/campaigns/professional-working-conditions

Mae darganfyddiadau penodol o'n Hamodau Gwaith 2018 yng Nghymru yn frawychus o'u darllen ac yn dangos bod:

- **Amodau gwaith gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru mor ddrwg â - os nad yn waeth na - gweddill y DU**
- **Rôl**: nid oes gan weithwyr cymdeithasol syniad da o beth yw eu rôl benodol o fewn y mudiad
- **Gofynion Uchel**: maint y gwaith a roddir ar weithwyr unigol
- **Cydberthynasau**: yn awgrymu gall cydberthynasau rhwng y staff fod dan bwysau ar adegau
- **Lefelau uchel o straen** – yn uwch na chyfartaledd meincnod atebwyr Seisnig
- **Presenoldeb**: 6 o bob 10 wedi bod yn y gwaith o leiaf dwywaith yn y flwyddyn ddiwethaf er bod mor wael y dylent fod wedi aros adref
- **TEffaith Covid-19** ar lesiant gweithlu gwaith cymdeithasol

## Recriwtio/dal gafael ar staff

Cau'r bwlch rhwng swyddi gwag a chadw staff. Mae'r data diweddaraf am y gweithlu yn dangos yn 2018-19 bod:

- **Gwasanaethau oedolion**
  135 o swyddi gwag
  60.9 o swyddi wedi cael ei llenwi gan weithwyr o asiantaethau
  194 o weithwyr cymdeithasol wedi gadael y gofrestr
- **Gwasanaethau i Blant**
  244.5 o swyddi gwag
  107.2 o swyddi wedi cael ei llenwi gan weithwyr o asiantaethau
  272 o weithwyr cymdeithasol wedi gadael y gofrestr
  www.socialcaredata.wales/IAS/eng

## Datblygu gyrfa ag arweiniad

cyfleoedd mewn sefyllfaoedd integredig ac o fewn strategaeth gweithlu ar y cyd.
https://socialcare.wales/resources/a-healthier-wales-our-workforce-strategy-for-health-and-social-care—final-draft

## Proffesiwn ffeministaidd:

Mae'r gymhareb o ferched i ddynion (ar y gofrestr) yn 2019 yn parhau i fod yn 4.1 a'r cyfartaledd oedran yw 46. Rhaid cael gwell dealltwriaeth am anghenion gweithlu sy'n uchel iawn o ran y nifer o ferched / dynion

## Gweithio'n integredig:

dealltwriaeth o rwystrau a gweithio gyda galluogwyr. i gael gwaith rhyngbroffesiynol effeithiol fel bod gweithwyr cymdeithasol mewn swyddi o statws, dylanwad a chyfleoedd sy'n gyfartal a chyd-weithwyr iechyd

## Amrywiaeth o fewn y gweithlu:

sut gall recriwtio, dal gafael ar staff, rheoleiddio, datblygu gyrfa a chefnogaeth i staff bod yn rhwystrau neu yn alluogwyr wrth ddilysu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd o fewn gweithlu gwaith cymdeithasol. Defnyddio cyllid (yn cynnwys bwrsarïau) a dargedwyd a strategaethau megis mentora er mwyn gwella mynediad i gymunedau lleiafrifol sydd eisoes yn ymdrechu i gael mynediad at Addysg Uwch - cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

## Addysg i Fyfyrwyr:

Cynyddu'r nifer o weithwyr cymdeithasol sy'n dod i mewn i'r proffesiwn a'u hyfforddi i gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau amryfal mewn timau integredig a sefyllfaoedd cymunedol, gyda datblygiad o lwybrau proffesiynol ôl graddedig clir sy'n gysylltiedig â chyflog a chynnydd gyrfa.

## plaid wleidyddol yng Nghymru rhoi ffocws penodol ar:

### Iechyd Cyhoeddus:

Wrth i'r pandemig hon agor i fynnu, fe ddaeth yn fwyfwy amlwg bod diffyg deallusrwydd am beth yw rôl gweithwyr cymdeithasol ym maes iechyd cyhoeddus. Bydd hyn yn cael goblygiadau parhaus i'r rhai sydd eisoes yn defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol a'r rhai hynny sydd wedi datblygu'r angen amdano, oherwydd yr effaith o fod dan glo. Mae hefyd wedi cael effaith arwyddocaol ar allu gweithwyr cymdeithasol i fod yn warchodwyr hawliau dynol. Fe gydnabyddir yn llawn beth yw rôl hanfodol gweithwyr cymdeithasol efo gwaith cyffredinol iechyd cyhoeddus a strategaethau llesiant yn ystod y pandemig ac yn ei sgil (ac mewn cynllunio argyfwng dilynol) i ddefnyddio eu harbenigedd yn effeithiol. Rhaid i waith cymdeithasol cael ei gyflwyno a'i integreiddio i drefniadau cynllunio argyfwng ar lefel lleol a chymunedol e.e. awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol neu systemau rhyngasiantaethol iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

### Prif Swyddog Gwaith Cymdeithasol dros Gymru:

Ymrwymo i greu swydd Prif Swyddog Gwaith Cymdeithasol gydag annibyniaeth Comisiynydd (megis rôl y Comisiynydd Plant). Mae angen y swydd allweddol ag annibynnol hon i roi llais i'r proffesiwn, i gefnogi a hyrwyddo gwerth y proffesiwn a helpu i greu'r amgylchiadau gorau i gael gwir gydraddoldeb gyda'r GIG.


### Cyllido Gofal Cymdeithasol:

Cyflymu'r gwaith o ddiwygio cyllid gofal cymdeithasol a sicrhau buddsoddiad hirdymor yn y sector gofal cymdeithasol. Mae Cymru'n wynebu diffyg yng nghyllid gofal cymdeithasol, yn arbennig mewn perthynas â chyllid gofal i'r henoed. Rydym yn gwybod bod cyllid gofal cymdeithasol i'r rhai dros 65 mlwydd oed wedi bod yn gostwng ac nad yw polisïau cynildeb dros 10 mlynedd wedi ysgafnhau'r cyfeiriad disgynnol hwn. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, bydd y galw am ofal cymdeithasol yn debygol o gynyddu a rhaid cwrdd â'r galw hwn trwy gynyddu'r cyllid. Fe ragwelir bydd y pandemig Covid-19 yn dod a tswnami o angen na ddarparwyd ar ei gyfer, yn cynnwys yr angen ar gyfer iechyd meddwl pobl o bob oedran. Mae angen diwygio hyn yn gyfan gwbl i wneud yn siŵr nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl.

### Cefnogaeth gan Undeb Gweithwyr Cymdeithasol

*"Mae* ***Undeb Gweithwyr Cymdeithasol*** *(SWU) yn hollol gefnogol o faniffesto BASW Cymru. Mae ymgyrch 'amodau gwaith a llesiant' BASW ag SWU eisoes wedi cymryd camau arwyddocaol i godi ymwybyddiaeth o'r anawsterau a wynebir gan weithwyr cymdeithasol ag effaith diffyg hyfforddiant a datblygu gyrfaoedd o ganlyniad i hyn ar eu llesiant. Mae'n eithriadol o bwysig yn awr i BASW Cymru gweithredu ar ganlyniadau'r gwaith hwn trwy ei maniffesto, cadw'r momentwm i fynd ac edrych am wir newidiadau dichonadwy a allai wella amodau gwaith gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru"*

Mae BASW Cymru yn galw ar i holl bleidiau gwleidyddol yng Nghymru i fynd ymhellach na rhethreg, a gofyn iddynt osod gwybodaeth, medrusrwydd a phrofiad gwaith cymdeithasol wrth galon dylunio cyflwyno ag arweiniad ar system gofal iechyd a chymdeithasol sy'n deg, yn ddiwylliannol diogel, a chyd-gynhyrchir yn ddilys, yn ganolig ar y gymuned ac yn seiliedig ar egwyddorion modelau cymdeithasol o lesiant




Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru cydnabod rôl hanfodol gwaith cymdeithasol ym maes iechyd a llesiant y genedl, ac os caiff ei ddefnyddio'n gywir, gall leihau'r pwysedd ar y GIG.

Ers troad yr 20fed ganrif mae gweithwyr cymdeithasol wedi bod yn ymwneud yn weithredol efo iechyd a llesiant unigolion a chymunedau, gan bwysleisio pwysigrwydd penderfyniadau cymdeithasol iechyd ac ymdrin ag anghenion pobl a all fod yn gymhleth ac yn aml yn croesi ar draws ei gilydd .

Mae grym gwaith cymdeithasol i gefnogi cymunedau ac ymdrin â holl gwmpas anghenion seico-cymdeithasol a gofal iechyd corfforol ar draws cwrs oes gyfan, yn dod yn fwy toredig gyda'r canolbwynt ar waith cymdeithasol yn culhau i fod yn fwy canolig ar ddiogelu - o atal i ymateb.

Ers i'r pandemig ddechrau, mae gweithwyr cymdeithasol yn cynyddol bryderus am ei effaith ar y rhai maent yn cefnogi, yn arbennig pan fo'n croestorri a thlodi, deg mlynedd o bolisïau cynilo  a diwygio llesiant

Mae'r pandemig yn cael effaith anghyfartal ar bobl Cymru, lle mae bron i chwarter y boblogaeth yn byw mewn tlodi, yn cynnwys 44% o deuluoedd un rhiant. Y bobl o grwpiau ethnig penodol, plant, pobl gydag anableddau a gofalwyr yw'r rhai mwyaf tebyg o fod wedi profi tlodi. Ni allai'r pandemig fod wedi taro ar adeg mor anodd, a Chymru'n arbennig trwy deg mlynedd o gynilo a thoriadau ariannol llym yng nghyllid awdurdodau lleol. Er i Lywodraeth Cymru ag awdurdodau lleol yng Nghymru blaenoriaethu cyllid tuag at wasanaethau cymdeithasol, cafwyd cynnydd yn y gofyn am wasanaethau. Rhwng 2009/10 a 2019, cafwyd cynnydd yn y nifer o blant dan ofal awdurdodau lleol yng Nghymru o 1,710 (36.4%). Mae'r codiad allweddol yn y nifer o blant mewn gofal o 2009/10 ymlaen yn cyd-fynd a'r cyfnod o ddiwygiadau llesiant a thoriadau ar wariant ar wasanaethau ataliol.

Gyda phoblogaeth Cymru yn heneiddio, mae'n sicr o yrru'r gofyn am ofal cymdeithasol i oedolion yn y dyfodol. Bu gostyngiad gwirioneddol o 1.3% ar wariant ar oedolion hŷn (dros 65 mlwydd oed) rhwng 2009-10 a 2017-18, er i'r gofyn cynyddu yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod cyfnod argyfwng Covid-19, mae gweithwyr cymdeithasol yn ymateb i amgylchiadau na welwyd o'r blaen a bu'n rhaid iddynt addasu ei gwaith ar frys, ac fe wnaed hyn ar gost bersonol uchel i'w anghenion llesiant ei hunain. Mae Covid-19 yn y DU wedi dangos bylchau yn y paratoadau cyffredinol yn genedlaethol ac yn fwy penodol, y ddealltwriaeth o rôl hanfodol a gofynion gweithwyr cymdeithasol mewn argyfwng o'r fath. Gall Cymru arwain gweddill y DU trwy sicrhau bod rôl hanfodol gweithwyr cymdeithasol yn rhan hollbwysig o'r cynllunio pandemig cyfredol ac yn y dyfodol.

Er absenoldeb cynrychiolwyr o waith cymdeithasol wrth gynllunio am y pandemig, maent yn chwarae a  byddant yn parhau i chwarae rhan gyflawn wrth ymateb i bandemig Covid-19 trwy; rhoi cymorth uniongyrchol i'r rhai sydd angen gofal a chefnogaeth, rhoi cymaint o wasanaeth dilynol ag sy'n bosibl a thrwy ymateb yn hyblyg i ofynion a disgwyliadau newydd wrth iddynt godi

Mae'r pandemig wedi codi'r brys i ail-ddychmygu sut mae gwaith cymdeithasol yn digwydd yng Nghymru, trwy ailadeiladu'n well, os ydym am gyfarfod a'r heriau a ddaeth o ganlyniad i ddeg mlynedd o gynildeb ac  a ddaeth yn fwy amlwg trwy'r pandemig.

Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol (BASW) yw mudiad y DU am aelodaeth broffesiynol dros waith cymdeithasol. Gyda thros 20,000 o aelodau, ni yw'r llais annibynnol tros waith cymdeithasol. Rydym yn hyrwyddo gwaith cymdeithasol ac yn helpu ein haelodau i gyrraedd y safonau proffesiynol uchaf. Mae BASW Cymru yn cynrychioli gweithwyr cymdeithasol, a gwaith cymdeithasol yng Nghymru ac mae ein Cod Moeseg www.basw.co.uk/about-basw/code-ethics yn datgan y gwerthoedd a'r egwyddorion moesegol sy'n sail i'n proffesiwn. Mae holl weithwyr cymdeithasol yn y DU sy'n aelodau o BASW ynghlwm i'r Cod.

## Proffil y gweithlu yn Ebrill 2019:

**5,114** o fenywod a **1,149** o ddynion

Cyfartaledd oedran y gweithwyr cymdeithasol yw **46**

Mae **88%** o weithwyr cymdeithasol yn groen wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu yn wyn Gwyddeleg

**38.5%** o weithwyr cymdeithasol yn siarad rhyw faint o Gymraeg neu yn rhugl

**2.5%** o weithwyr cymdeithasol efo anabledd

**48%** o weithwyr cymdeithasol yn gadael y gofrestr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf heb ail-gofrestru

**25%** o rai oedd yn gadael wedi ymddeol

**8%** wedi parhau i weithio o fewn gofal cymdeithasol y tu allan i Gymru

Y canran o weithwyr cymdeithasol a gyflogwyd gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi gostwng o 75% yn 2014 i **72%** eleni

Data diweddaraf Gofal Cymdeithasol Cymru https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Social-workers-factsheet-ENG.pdf

BASW
Cymru

Y gymdeithas i waith cymdeithasol
a gweithwyr cymdeithasol

www.basw.co.uk